Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's Cymru

# Ymateb Barnardo's Cymru i'r Ymgynghoriad

## Gwaith craffu cyfnod un Bil Awtistiaeth (Cymru)

21 Medi 2018

tim.ruscoe@barnardos.org.uk

Uned Polisi ac Ymchwil Barnardo's Cymru
19-20 Heol Llundain
Castell-nedd
SA11 1LE
01639 620771

www.barnardos.org.uk/what_we_do/who_we_are/wales/wales_policy

- **Mae'n bosibl y caiff yr ymateb hwn ei wneud yn gyhoeddus**

- **Mae'r ymateb hwn yn cael ei gyflwyno ar ran Barnardo's Cymru**

## Cyflwyniad Barnardo's Cymru

Mae Barnardo's Cymru yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru ers dros 100 mlynedd, ac mae'n un o'r elusennau plant mwyaf sy'n gweithio yn y wlad. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal tua 90 o wahanol wasanaethau ar hyd a lled Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag 16 o'r 22 awdurdod lleol.

Mae ein holl wasanaethau'n wahanol, ond mae pob un ohonynt yn credu bod pob plentyn a pherson ifanc yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd – pwy bynnag ydyn nhw, beth bynnag maen nhw wedi'i wneud, a beth bynnag maen nhw wedi'i ddioddef. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gawn o'n gwaith uniongyrchol gyda phlant i ymgyrchu dros well polisïau plant a gofal cymdeithasol, ac i hyrwyddo hawliau pob plentyn. Rydym yn credu, gyda'r math cywir o gymorth, cefnogaeth ymroddedig ac ychydig o ffydd, y gall hyd yn oed y plant mwyaf agored i niwed newid cyfeiriad eu bywyd. Ein nod yw sicrhau gwell canlyniadau lles ar gyfer mwy o blant drwy gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud yn siŵr bod teuluoedd yn gryfach, bod plentyndod pawb yn fwy diogel, a bod y dyfodol yn fwy cadarnhaol.

## Barnardo's Cymru, Awtistiaeth a'r Bil

At ddiben yr ymateb hwn, pan ddefnyddir y term anhwylder yn y sbectrwm awtistig (ASD), rydym yn cynnwys cyflyrau niwroddatblygiadol eraill.

Mae Barnardo's Cymru yn helpu rhai plant ac oedolion ifanc awtistig; rydym hefyd yn helpu rhai rhieni a allai fod yn awtistig drwy ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Er y gellid dadlau nad yw Barnardo's Cymru yn darparu unrhyw gefnogaeth benodol ar gyfer awtistiaeth, mae'r gwasanaethau rydym yn eu darparu ar gyfer plant anabl a theuluoedd sydd ag un neu fwy o blant anabl yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau sy'n cynnwys ASD. Gall Barnardo's Cymru hefyd gael cyswllt â theuluoedd y mae ASD yn effeithio arnynt, drwy wasanaethau gofalwr ifanc, camddefnyddio sylweddau, Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant, Iechyd a Lles Emosiynol, Cam-drin Plant yn Rhywiol, Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, Gofal a Gadael Gofal.

Rydym yn ymwybodol o'r ymateb i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, ac rydym yn cefnogi ymateb y Gymdeithas honno ac yn cydnabod ei harbenigedd penodol.

Roedd Barnardo's Cymru wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad ar y fersiwn ddrafft flaenorol, ac mae'n dal i gefnogi'r Bil ac yn credu y dylid gwella profiadau pobl a theuluoedd y mae ASD yn effeithio arnynt drwy osod gwasanaethau o fewn fframwaith atebol statudol.

## Trosolwg o’r ymateb

Nid yw Barnardo’s Cymru yn gefnogol o ddatblygu deddfwriaeth heb fod angen clir, ac mae'n teimlo bod achos da wedi’i gyflwyno ar gyfer y ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, ni fyddai pasio’r bil hwn yn sicrhau’r holl newid sydd ei angen, ac felly byddem yn dadlau dros ystyried darpariaethau ychwanegol drwy ddiwygio’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae Barnardo’s Cymru yn cydnabod y cynnydd a wnaed yn ystod y ddegawd ers y Strategaeth Awtistiaeth gyntaf ac yn fwy diweddar, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Mae'n ymddangos i Barnardo’s Cymru y byddai mwy o gynnydd wedi gallu bod yn bosib pe byddai datblygiadau strategol a datblygiadau i wasanaeth wedi cael eu gwneud o fewn fframwaith statudol cliriach. Felly, mae Barnardo’s Cymru yn awgrymu y byddai nod y Bil wedi cael ei gyflawni’n well pe byddai disgwyliad clir o newid cadarnhaol i bobl awtistig ar wyneb y bil.

Er bod Barnardo’s Cymru yn cydnabod y cynnydd a wnaed, bydd diffyg fframwaith atebolrwydd gyda disgwyliadau clir o ran canlyniadau lleol yn hybu gwahaniaeth rhwng ‘codau post’, nid o anghenraid yn natur y ddarpariaeth ond yn y canlyniadau a welir.

Mewn ymgynghoriad diweddar mewn un awdurdod lleol, roedd Barnardo’s Cymru wedi synnu o weld pa mor aml roedd teuluoedd yr oedd ASD yn effeithio arnynt yn dweud eu bod yn osgoi cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fod ofn arnynt y byddai’r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried nad oedden nhw’n ymdopi, ac y byddent yn peryglu eu teuluoedd. Er nad oes tystiolaeth i gefnogi’r gred hon neu ei bod yr un mor amlwg mewn ardaloedd eraill, gallai fframwaith deddfwriaethol helpu i fynd i’r afael â’r mater hwn.

## Diffiniad o awtistiaeth

Mae Barnardo’s Cymru yn croesawu cynnwys diffiniad o awtistiaeth ar wyneb y Bil. Hefyd, rydym yn cydnabod y budd o ddefnyddio diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd.

## Hawliau

Mae Barnardo’s Cymru yn falch o weld bod Adran 8 yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ac Egwyddorion y

Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Er bod cynnwys hyn yn helpu i hybu a diogelu Hawliau Dynol, mae Barnardo's Cymru yn dadlau y gellid cryfhau hyn ymhellach yn arddull a geiriad y Bil. Er enghraifft, yn adran 2 gallai'r angen i gynnwys yr unigolyn ag ASD, ac i ystyried nodau a dyheadau ei deulu a'i ofalwyr, fod yn gliriach na 2 (l).

Yn Adran 2, gellid hefyd ystyried eiriolaeth ar gyfer pob parti, a chydnabod ymhellach rôl gweithwyr cyfarwydd i gefnogi ymgysylltiad.

**Cyrff perthnasol**

I gydnabod profiad gydol oes o awtistiaeth, ac felly natur newidiol anghenion gofal penodol, oni ddylai'r rhestr hon hefyd gynnwys, ar ryw ffurf, wasanaethau gofal cymdeithasol a phreswyl wedi'u rheoleiddio, fel gofal nyrsio a'r henoed a llety diogel?

Rydym yn ymwybodol bod pobl ag awtistiaeth – p'un ai a ydynt wedi cael diagnosis ai peidio – yn cael eu cynrychioli'n sylweddol yn yr ystad ddiogeledd, boed ar gyfer materion lles neu gyfiawnder. Byddai'r sefyllfa hon yn elwa o gael ymyriad a diagnosis cynnar priodol.

**Amserlenni**

Er y bydd Barnardo's Cymru bob amser yn dadlau dros leihau'r cyfnodau aros i gael asesiad a gwasanaeth, rydym yn cydnabod gwerth natur bragmatig gosod amserlenni y gellir eu cyflawni, a byddem yn cytuno â'r awgrym i ddefnyddio canllawiau NICE.

Fodd bynnag mae Barnardo's Cymru yn awgrymu y gallai'r Bil yn ddiarwybod, wrth ddeddfu ar gyfer diagnosis, hybu diagnosis fel trothwy ar gyfer gwasanaeth neu gefnogaeth arall. Rydym yn cydnabod bod y geiriad yma'n awgrymu na ddylai asesu neu ddarparu gofal a chefnogaeth gael ei ohirio yn sgil yr angen am ddiagnosis, ond rydym yn teimlo y byddai'n well pe byddai hyn yn gliriach os yw'n bosibl.

**Tîm amlddisgyblaethol**

Mae Barnardo's Cymru yn awgrymu y gallai rôl eiriolwr annibynnol ar gyfer pob parti ac, oherwydd natur yr Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig, rôl unrhyw weithiwr sydd eisoes yn cefnogi'r unigolyn ac yn hysbys iddo, gael eu hystyried yn 4 (6)(d).

Byddai cynnwys ystyriaeth o'r math yma yn fwy cydnaws â dull sy'n seiliedig ar hawliau ac yn gydgynhyrchiol.

**Casglu data**

Mae Barnardo’s Cymru yn cytuno â’r gofyniad i gasglu data; fodd bynnag, er ein bod yn cydnabod y datganiad hollgynhwysol yn 6 (6)(j), byddem yn awgrymu y dylid ystyried rhestru setiau data pellach yn ogystal â dyletswydd ar gyrff ar wahân i’r GIG, fel awdurdodau lleol. Byddem yn dadlau y byddai data mwy defnyddiol yn cael ei gasglu pe byddem yn cynnwys data fel y canlynol:

- Oed ar hyn o bryd
- Oed adeg yr arwyddion cynharaf
- Y niferoedd sy’n aros am asesiad diagnostig
- Yr amseroedd aros am asesiad diagnostig
- Cyfnod heb ddiagnosis
- Rôl y teulu, rhiant/gofalwr ac ati
- Nifer y teuluoedd ag ymddygiad sy’n awgrymu ASD ond sydd heb gael eu cyfeirio, sy’n gwrthod asesiad diagnostig neu ddim yn gofyn am un.

O ystyried y pwyslais ar leihau profiad niweidiol yn ystod plentyndod ac ymyrryd yn gynnar, gallai’r data hwn fod yn amhrisiadwy.

**Mynediad teg**

Mae Erthygl 9 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn amlinellu cyfrifoldebau gwladol mewn perthynas â hygyrchedd, ac mae’r amcanion cydraddoldeb yn cynnwys:

> *“5. Mynd i’r afael â rhwystrau a chefnogi pobl anabl er mwyn iddynt allu byw’n annibynnol a chael dewis a rheolaeth yn eu bywydau bob dydd.”*

Mae Barnardo’s Cymru yn ymwybodol o brofiadau rhai pobl awtistig sy’n cael trafferth cael gafael ar wasanaethau cymorth priodol oherwydd nad oes ganddynt anabledd amlwg, a bod ganddynt IQ normal-uchel. Dylem ddisgwyl na fydd hyn yn digwydd mwyach o ran gwasanaethau statudol neu ofal cymdeithasol; fodd bynnag, gallai fod yn anoddach rhoi sylw i hyn wrth ddarparu gwasanaethau masnachol ehangach, sy’n dangos bod angen ymgyrchoedd cynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth er mwyn herio dealltwriaeth.

Mae Barnardo’s Cymru yn cefnogi’r ddarpariaeth yn y Bil sy’n gofyn am ddarparu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Mae hyn yn cael ei gynnwys hefyd fel rhwymedigaeth yn erthygl 8 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

**Casgliad**

Heb os, mae gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran darparu gwasanaethau ar gyfer pobl awtistig, a phrofiadau pobl awtistig o’r

gwasanaethau maen nhw’n eu derbyn. Mae'n dal yn wir fod angen gwelliannau pellach i fwrw ymlaen â’r gwaith i sicrhau cyfle a phrofiad teg i bobl awtistig. Mae hefyd yn amlwg ein bod yn wynebu hinsawdd ariannol heriol iawn, wrth i ni geisio gwella ansawdd a lefel y gefnogaeth sydd ar gael yn erbyn yr angen cynyddol.

Yn y cyd-destun hwn, mae Barnardo’s Cymru yn croesawu datblygiad y bil hwn, ac yn ei ystyried yn gyfle i ddatgan yn glir beth yw’r nod cenedlaethol yn ogystal â’r fframwaith darparu ac atebolrwydd ar gyfer gwasanaeth i bobl awtistig.

Mae Barnardo’s Cymru yn croesawu’r cam o gynnwys dyletswyddau hawliau penodol, ac mae’n gobeithio y bydd datblygiadau pellach o ran darparu eiriolaeth a gofynion i hwyluso ymgysylltiad unigol lle y bo’n bosibl.

I gloi, mae Barnardo’s Cymru yn croesawu datblygiad y Bil Awtistiaeth, ac yn ei ystyried yn gam blaengar angenrheidiol wrth ddarparu gwell gwasanaethau i bobl sydd ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig, neu y mae Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig yn effeithio arnynt.

**Tim Ruscoe**
**Barnardo’s Cymru**
**Medi 2018**